

# SL(5)014 – Canllawiau i Ofwat (corff rheoleiddio economaidd y sector dŵr) ar Godi Tâl

## Cefndir a Phwrpas

---

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud yr arweiniad hwn ac yn ei ddyroddi i Ofwat, y rheoleidiwr economeg annibynnol ar gyfer y sector dŵr. Mae rhaid i Ofwat dalu sylw i'r arweiniad wrth i Ofwat wneud Rheolau Codi Tâl sy'n gymwys mewn ardaloedd sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## Gweithdrefn

---

Mae'r ddeddf alluogi (Deddf Diwydiant Dŵr 1991) yn darparu'r weithdrefn ganlynol:

- ni all Weinidogion Cymru ddyroddi'r arweiniad hwn nes i 40 o ddiwrnodau fynd heibio ers y dyddiad y gosodwyd drafft gerbron y Cynulliad, a
- os, cyn diwedd y cyfnod hwnnw mae'r Cynulliad yn penderfynu na ddylai'r arweiniad gael ei ddyroddi, ni all Weinidogion Cymru ei ddyroddi.

## Craffu dan Reol Sefydlog 21.7

---

Nid yw'r *Charging Guidance* yn offeryn statudol felly nid yw'r Pwyllgor yn adrodd dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ac yn adrodd ar y *Charging Guidance* dan:

Rheol Sefydlog 21.7 (i): fel is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad;

Rheol Sefydlog 21.7(v): mater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Gellir bob amser trafod p'un ai yw arweiniad yn gallu bod yn ddeddfwriaeth, ond mae nifer o faterion yn codi o'r *Charging Guidance* sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor:

- mae Gweinidogion Cymru'n gwneud yr arweiniad hwn dan bwerau a roddwyd iddynt mewn deddfwriaeth gynradd (Deddf Diwydiant Dŵr 1991);
- mae Deddf Diwydiant Dŵr 1991 yn darparu bod rhaid gosod arweiniad drafft gerbron y Cynulliad;



- ni all Weinidogion Cymru ddyroddi'r arweiniad nes i 40 o ddiwrnodau fynd heibio ers y dyddiad y gosodwyd drafft gerbron y Cynulliad;
- caiff y Cynulliad benderfynu na ddylai'r arweiniad gael ei ddyroddi (ac os penderfynir felly, ni all Weinidogion Cymru ei ddyroddi);
- rhaid i Ofwat dalu sylw i'r arweiniad wrth i Ofwat ddyroddi Rheolau Codi Tâl ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;
- y disgwyl yw y bydd y Rheolau Codi Tâl hynny'n cael effaith ar filiau dŵr defnyddwyr.

Yn sgil yr uchod, mae'r arweiniad statudol hwn i'w weld yn ddigon deddfwriaethol ei natur i'r Pwyllgor adrodd arno dan Reol Sefydlog 21.7.

## Pwyntiau adrodd

---

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr egwyddorion a grybwyllir yn yr arweiniad i Ofwat, ac nid oes dim i'w adrodd arno o ran yr egwyddorion hynny.

Mae'r Pwyllgor yn adrodd bod y Charging Guidance yn Saesneg yn unig.

## Ymateb y Llywodraeth

---

Bwriedir y Canllawiau Codi Tâl ar gyfer swyddogion Ofwat yn unig. Y rheoleiddwyr economaidd ar gyfer y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr yw Ofwat ac fe'u lleolir yn Lloegr yn unig; ni cheir unrhyw siaradwyr Cymraeg o fewn Ofwat. Mae'r canllawiau o natur dechnegol. Cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru ymarfer sgorio cyfieithu cyn dyroddi'r canllawiau hyn, ac argymhellodd yr ymarfer hwnnw bod yr eitemau yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig.

## Trafodaeth Bwyllgor

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2016. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

## Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**26 Medi 2016**

